**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/CS/1545/17
To: All Public Service Boards

# APPENDIX 2

6th June 2017

Dear Colleagues

We are writing to you to highlight the importance of joint working between Public Service Boards and third sector organisations in delivering engaged, empowered and resilient communities.

In a period of increasing challenges, it is clear we cannot continue to do things the same way. We believe strongly in investing in innovative ways of working which can sustain and enhance services and strengthen communities, and which will empower people, improve their well-being and reduce the strain on our public services.

The seven well-being goals and the five ways of working in the Well-being of Future Generations Act aim to help us all focus clearly on how we can work together to deliver a better future for the people of Wales. In order to do this, we need to ensure that: citizens have a stake in the decisions which affect them; we are able to release social capital by harnessing people and communities' strengths; we develop assets-based and place-based working; we collaborate to bring together sources of funding; and that we share data and evidence to shape strategy. The third sector is well placed to support the delivery of this agenda.

An example of this work is that of Pembrokeshire Association of Voluntary Services. They are developing in partnership with Pembrokeshire County Council and Hywel Dda University Health Board, a two year programme piloting a community-centred approach to improving health and well-being, entitled Active & Connected Communities. The programme has three key elements – Community Connectors, Active Citizenship and Community Resilience.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

The Community Connectors team works across Pembrokeshire to:

- Work closely with GP surgeries, primary care clusters and social care hubs to support anticipatory care planning and social prescribing;
- Make appropriate referrals to third sector organisations and other services;
- Develop community-based, citizen-centred solutions;
- Work with individuals to help them meet identified well-being goals and needs;
- Map local assets and contribute to the well-being and population needs assessments.

The aims of the project are to achieve a shift toward preventative and early action and to help people make prudent choices and live healthier lives. The Community Connectors seek to reduce the burdens on existing services by working with local GP Surgeries and the Pembrokeshire County Council (PCC) Contact Centre to find community-based solutions that improve individual and community wellbeing.

In recognition of the important role the third sector plays, at least one third sector organisation must be invited to participate in each Public Services Board. Alongside this, there is a broader requirement to involve people who have an interest in the well-being of the area, including the third sector, in your work. The third sector is also well placed to help facilitate involvement with communities.

The statutory and supporting guidance which has been issued offers advice on how this involvement might be achieved, and the Wales Audit Office Good Practice Exchange and the Welsh Council for Voluntary Action Participation Cymru both offer advice to local authorities or other organisations on involving the third sector.

All Public Service Boards should now be working with the third sector in the development of the local well-being plans. There is a firm foundation on which to build and we have been encouraged by the evidence of some Boards' engagement with third sector organisations in the draft Assessments of Well-being. Where this is the case, the Boards are able to demonstrate a more robust narrative and create a richer picture of well-being.

However, other draft Assessments do not document, or at least not clearly enough, their engagement with the third sector. Some PSBs have identified this as an area for development and we would encourage *all* PSBs to reflect on how they can best draw on the insight the third sector can offer into the well-being of their communities and the contribution they can make in engaging with and empowering communities. A common challenge has emerged around incorporating the perspectives of some disadvantaged or marginalised groups, including people with protected characteristics under the Equality Act 2010, and this too is an area in which the third sector has an important role to play.

The focus will now be on preparation of local well-being plans and the third sector has the potential to make a valuable contribution to their development and successful delivery.

We are very pleased to recognise the progress that is being made, but there is still much more to be done to release the potential of the third sector to contribute to the Wales we want. We encourage all Public Service Boards' members to strengthen their engagement with third sector partners in order to deliver empowered and resilient communities across Wales.

Yours sincerely,

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

**Mark Drakeford AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

**Mark Drakeford AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref -MA(P)/CS/1545/17

At: Pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

6th Mehefin 2017

Annwyl Gyfeillion

Rydym yn ysgrifennu atoch i dynnu sylw at bwysigrwydd gweithio ar y cyd rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector i greu cymunedau cryf, brwdfrydig sydd wedi'u grymuso.

Mewn cyfnod o heriau cynyddol, mae'n amlwg na allwn barhau i wneud pethau yn yr un ffordd. Rydym yn credu'n gryf mewn buddsoddi mewn ffyrdd arloesol o weithio sy'n gallu cynnal a gwella gwasanaethau a chryfhau cymunedau, ac a fydd yn grymuso pobl, yn gwella eu llesiant ac yn lleihau'r pwysau ar ein gwasanaethau cyhoeddus.

Diben y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw ein helpu i ganolbwyntio ar sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddarparu gwell dyfodol ar gyfer pobl Cymru. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i ni sicrhau'r canlynol: bod gan ddinasyddion ran yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; ein bod yn gallu rhyddhau cyfalaf cymdeithasol drwy gyfeirio a defnyddio cryfderau pobl a chymunedau; ein bod yn meithrin ffyrdd o weithio sy'n seiliedig ar asedau a lleoedd; ein bod yn cydweithredu i ddod â ffynonellau arian ynghyd; a'n bod yn rhannu data a thystiolaeth er mwyn llywio strategaethau. Mae'r trydydd sector mewn sefyllfa dda i helpu gyda chyflawni'r rhain i gyd.

Un enghraifft o hyn yw Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro. Mewn partneriaeth â Chyngor Sir Benfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, maen nhw'n datblygu rhaglen ddwy flynedd sy'n treialu dull o wella iechyd a llesiant gan ganolbwyntio ar y gymuned, sef Cymunedau Gweithgar a Chysylltiedig. Mae tair elfen allweddol i'r rhaglen - Cysylltwyr Cymunedol, Dinasyddiaeth Weithredol a Chryfder Cymunedol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@gov.wales

Mae'r tîm Cysylltwyr Cymunedol yn gweithio ledled Sir Benfro ar y canlynol:

- Gweithio'n agos gyda meddygfeydd, clystyrau gofal sylfaenol a chanolfannau gofal cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o ragweld angen a chynllunio gofal o flaen llaw ac o bresgripsiynu cymdeithasol;
- Atgyfeirio'n briodol i sefydliadau trydydd sector a gwasanaethau eraill;
- Datblygu atebion o fewn y gymuned sy'n rhoi'r lle canolog i ddinasyddion;
- Gweithio gydag unigolion i'w helpu i gyrraedd nodau ac anghenion llesiant a nodwyd;
- Mapio asedau lleol a chyfrannu at yr asesiadau o lesiant ac anghenion cymdeithasol.

Diben y prosiect yw symud tuag at weithredu'n gynnar ac atal problemau a helpu pobl i ddewis yn ddarbodus a byw bywydau iachach. Mae'r Cysylltwyr Cymunedol yn ceisio lleihau'r baich ar y gwasanaethau presennol wrth weithio â meddygfeydd lleol a Chanolfan Gyswllt Cyngor Sir Benfro i ganfod atebion o fewn y gymuned a all wella llesiant unigolion a'r gymuned.

I gydnabod y rhan bwysig y mae'r trydydd sector yn ei chwarae, mae'n rhaid gwahodd o leiaf un sefydliad trydydd sector i gymryd rhan ym mhob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Law yn llaw â hyn, mae gofyniad ehangach i gynnwys pobl sydd â diddordeb yn llesiant yr ardal yn eich gwaith, gan gynnwys y trydydd sector. Mae'r trydydd sector hefyd mewn sefyllfa dda i helpu i hwyluso'r gwaith o gynnwys cymunedau.

Mae'r canllawiau statudol ac atodol sydd wedi cael eu cyhoeddi yn cynnig cyngor ynghylch sut y gellid llwyddo i'w cynnwys, ac mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru a 'Cyfranogaeth Cymru' Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ill dau'n cynnig cyngor i awdurdodau lleol neu sefydliadau eraill ynghylch cynnwys y trydydd sector.

Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus pob Partneriaeth fod yn gweithio gyda'r trydydd sector erbyn hyn i ddatblygu cynlluniau llesiant lleol.  Mae gennym sail gadarn i adeiladu arni ac mae wedi bod yn galonogol gweld tystiolaeth o ymgysylltiad rhai Byrddau â sefydliadau trydydd sector yn yr Asesiadau Llesiant drafft. Yn yr achosion hyn, mae'r Byrddau'n gallu dangos naratif mwy cadarn ac yn gallu creu darlun cyfoethocach o lesiant.

Fodd bynnag, nid yw Asesiadau drafft eraill yn nodi eu hymgysylltiad â'r trydydd sector, neu maent heb ei nodi'n ddigon eglur. Mae rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi nodi hon fel elfen i'w datblygu a byddem yn annog *pob* Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried sut orau i elwa ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth y gall y trydydd sector eu cynnig o ran llesiant eu cymunedau a'r cyfraniad y gall ei wneud wrth ymgysylltu â chymunedau a'u grymuso. Mae her gyffredinol wedi dod i'r amlwg ynghylch cynnwys safbwyntiau rhai grwpiau difreintiedig neu rai sydd ar y cyrion, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hwn hefyd yn faes lle mae gan y trydydd sector ran bwysig i'w chwarae.

Bydd y pwyslais ar baratoi cynlluniau llesiant lleol nawr ac mae gan y trydydd sector y gallu o bosibl i wneud cyfraniad gwerthfawr tuag at eu datblygu a'u cwblhau'n llwyddiannus.

Rydym yn falch iawn o gydnabod y cynnydd sy'n cael ei wneud, ond mae llawer mwy o waith i'w wneud er mwyn rhyddhau potensial y trydydd sector i gyfrannu i'r Gymru y dymunwn ei chael. Rydym yn annog holl aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i atgyfnerthu eu hymgysylltiad â phartneriaid yn y trydydd sector er mwyn creu cymunedau cryf sydd wedi'u grymuso ledled Cymru.

Yn gywir,

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

**Mark Drakeford AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government